

Cynllun Mantais Sir Gâr

Noddyd gan:



Electricians Ltd



Gostyngiadau Lleol

Annwyl Gydweithiwr,

Ers inni gyflwyno'r cynllun gostyngiadau i aelodau/gweithwyr y Cyngor Sir yn 2006, mae dros fil ohonom wedi arbed arian ar ystod gyfan o nwyddau a gwasanaethau. Mae'n bleser gennyf nawr amgáu manylion am y gostyngiadau lleol diweddaraf a drefnwyd, sy'n cynnwys cynigion newydd gan The Optic Shop, Sheds n Chalets a'r Ardd Fotaneg. Er mwyn ichi fanteisio ar y cynigion hyn, bydd angen ichi brofi eich bod yn gweithio i'r Cyngor ar hyn o bryd drwy ddangos y garden llun adnabod a roddwyd ichi gan y Cyngor Sir. Os nad oes gennych garden, gellwch gael un drwy gysylltu ag Uned Cynnal Busnes Rheoli Pobl a Pherfformiad drwy ffonio 01267 246100.

Yn ogystal â chynigion lleol, rydym wedi trefnu â VECTIS i gynnig gostyngiadau gwych ichi oddi ar amrywiaeth eang o nwyddau 'ffordd o fyw', gan gynnwys gwyliau, gwestai, diwrnodau allan, pecynnau ariannol a chryno ddisgiau. Gellwch gael rhagor o wybodaeth am y bargeinion hyn ar wefan benodol, sef www.vectis.com. Cliciwch ar y safle, atebwch un neu ddau gwestiwn cofrestru ac yna, cewch weld yr holl ostyngiadau diweddaraf a gynigir.

I gloi, dymunaf ddiolch i noddwr y cynllun, sef RT Electrics yn Llanelli, am barhau i'n cefnogi a gobeithiaf y bydd y cynllun a'r gostyngiadau y mae'n eu cynnig, o ddiddordeb ichi.



Mark James
Prif Weithredwr



Cyfarwyddiadau

Mae'r gostyngiadau naill ai'n **LLEOL** neu'n **GENEDLAETHOL**.

Gostyngiadau lleol:

Gellwch fanteisio arnynt drwy fynd i'r busnes perthnasol a dangos y garden llun adnabod a roddwyd ichi gan y Cyngor, neu eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun.

Gostyngiadau cenedlaethol:

Gellwch fanteisio arnynt drwy gyrchu'r wefan hon: <http://www.vectisonline.co.uk/>
Gan ddefnyddio côd mynediad: 4077

Fel arall, ffoniwch:

Y rhif ffôn ar gyfer vectis yw **Vectis OneCall 08453 717171**

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Mynediad i 2 am bris i Ryfeddod Cymru

Naw mlwydd oed yn unig yw Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ond mae eisoes wedi ennill statws eiconig fel yr ardd yr ymwelir fwyaf â hi yng Nghymru. Yn ddiweddar bu i ddarlennwyr cylchgrawn 'Gardeners' World' y BBC bleidleisio taw hon oedd 'Yr Ardd Orau i Ymweld â Hi yng Nghymru', a cheir ynddi ddegau o filoedd o blanhigion, miliwn o wenyn, casgliad cyfareddol o fywyd gwyllt, a'r tŷ gwydr un bwa mwyaf yn y byd. Mae'r cynnig hwn o fynediad i ddau am bris un yn gyfle euraid ichi grwydro ar

hyd yr ardd odidog sy'n 100 erw a mwy - y gadwyn o lynnoedd, y llwybrau cerdded Cymreig, yr Ardd Japaneidd a'r Ardd Ddeufur hanesyddol ac unigryw. Ymhlith y datblygiadau diweddaraf y mae'r Tŷ Trofannol trawiadol, sy'n llawn palmwydd, liliau, planhigion sinsir, a thegeirianau; a Gwarchodfa Natur Genedlaethol newydd Waun Las, sef dros 400 erw o dir ystâd cyforiog ei rywogaethau y tu hwnt i ffiniau swyddogol yr Ardd. Yn ogystal, mae yno fwyty trwyddedig, dau gaffi, siop ac arwerthiant planhigion y cewch ddod i'w gweld a'u mwynhau.

I gael rhagor o wybodaeth:
Ewch i: www.gardenofwales.org.uk
Ffôn: 01558 668768

Y Gostyngiad a gynigir
Mynediad i ddau oedolyn am bris un
Y Pris arferol Pris Gostyngiad CSC
£16.00 £8 50%

Sut mae cael gostyngiad?
Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Telerau ac amodau

- Dim ond os dangosir carden adnabod CSC y gellir cael y gostyngiad
- Nid yw'r cynnig ar gael gydag unrhyw gynnig arall
- Mae'r cynnig ar gael rhwng 1af Ionawr 2009 a 30ain Mehefin 2009, ac yna unwaith eto rhwng 1af Medi, 2009 a 31ain Rhagfyr, 2009 (ddim ar gael ym misoedd Gorffennaf ac Awst).

DG Heath (Timber Products) Ltd

Mae'r busnes teuluol hwn ym Mhontarddulais wedi hen ennill ei blwyf ac yn arbenigo mewn cyflenwi lloiau pren caled solet a laminaid, yn ogystal â phren wedi ei fraslifio a phren asio o safon uchel, ffensys a lloiau estyll. Gan mai siop i fasnachwyr yn bennaf yw DG Heath, mae'r prisiau arferol yn rhai cystadleuol iawn o gymharu â siopau'r stryd fawr ac mae'r gostyngiad ychwanegol o 10% i weithwyr CSC yn golygu y cewch fwy o werth am eich arian ar ben hynny.

I gael rhagor o wybodaeth
Ffôn: 01792 884828
Ewch i: www.dgheath.co.uk

Y nwyddau sydd ar gael am bris gostyngol

	Gostyngiad CSC (%)
Pren (asio, wedi ei fraslifio, ei blaenio, a'i drwytho â sylweddau atal pydru)	10%
Deunyddiau llawr estyll a siediau	10%
Deunyddiau llawr laminiad a phren caled o safon	10%
Ffensys (ystod o baneli addurnol, delltwaith a nwyddau i fasnachwyr)	10%
Drysau mewnol ac allanol	10%

Sut mae cael gostyngiad?

Ewch i'r siop a dewiswch eich eitem. Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Natural Welsh Stone Ltd

Bellach mae Natural Welsh Stone Ltd. yn gwerthu cerrig Pennant Glas Cymreig o'r safon uchaf oll, ac mae'r cwmni yn gallu darparu'r cerrig hyn ar ffurf cerrig nadd, cerrig hap, cerrig ar gyfer eich gardd gerrig, cerrig cladin, cerrig palmant, a cherrig sydd yn addas ar gyfer gwaith adeiladu a phrosiectau eraill lle mae angen cerrig naturiol. Tywodfaen naturiol yw Pennant Glas Cymreig, ac mae tipyn o amrywiaeth o ran y lliwiau a'r ansawdd gan ychwanegu at brydferthwch naturiol y garreg hon.

Daw'r garreg hon o gwar yng Nghymru, ond mae pobl yn ei phrynu ledled y byd. Gellir ei defnyddio i godi tai, i addurno ystafelloedd, i wneud llefydd tân, i godi welydd a gwneud gerddi cerrig, i godi pontydd, i wneud llwybrau, ac i wneud gwaith tirweddu o bob math.

Y nwyddau sydd ar gael am bris gostyngol

Y pris arferol	Gostyngiad CSC
Cerrig nadd £120.00 y dunnell fetrig	10%
Cerrig hap £65.00 y bag (tua 1 dunnell fetrig)	10%
Cerrig ar gyfer gerddi cerrig £65.00 y bag (tua 1 dunnell fetrig)	10%

Mae'r prisiau uchod ar gyfer y cwsmeriaid hynny sydd yn dod i'r cwar i nôl cerrig (mae map ar gael ar y wefan), ond am resymau diogelwch mae'n rhaid i gwsmeriaid gysylltu â'r cwmni cyn cyrraedd y safle. Mae modd gwneud trefniadau cludo gyda halwyr lleol, a fydd yn cynnig pris i chi ar sail y pellter ac ati. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 01554 755741 neu ewch i'r wefan: www.welshstone.com

Sut mae cael gostyngiad?

I gael gostyngiad o 10% dywedwch eich bod yn un o weithwyr "Cyngor Sir Caerfyrddin" wrth ichi osod eich archeb ac yna dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

County Cycles

Busnes teuluol yw County Cycles, a sefydlwyd yn 1984 ac sydd wedi'i leoli yng nghanol Sir Gaerfyrddin. Mae'r busnes yn gwerthu beiciau plant a beiciau ffordd a mynydd arbenigol.

Cynigir gwasanaeth pwrpasol a gwaith cynnal a chadw proffesiynol ar gyfer pob math o feiciau.

Yn ystod 2007 gwobrwywyd County Cycles â'r teitl pwysig "UK DEALER OF THE YEAR" ar gyfer beiciau Wilier.

Safonau uchel o ran gwasanaeth i gwsmeriaid

I gael rhagor o wybodaeth

53 Heol Llandeilo, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin, SA14 6RD.

Ffôn: 01269 845656, Ffacs: 01269 845656

Gwefan: www.county-cycles.com

Gostyngiad 10%

Sut mae cael gostyngiad?

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Travis Perkins - Masnachwyr Adeiladu

Os oes angen pren, defnyddiau adeiladu, ac ati arnoch, mae Travis Perkins ymhlith y cwmnïau cyflenwi mwyaf ym Mhrydain. Mae gan y cwmni fwy na 740 o ganghennau, gan gynnwys rhai yn Llanelli, Sandlâr, Abertawe a Chydewi.

Mae'r cwmni yn gallu gwerthu mwy na 100,000 o wahanol bethau i grefftwyr proffesiynol ac i bobl sydd yn gwneud eu gwaith eu hunain. Mae'r nwyddau hyn yn cynnwys defnyddiau adeiladu cyffredinol, pren, defnyddiau plymwaith a gwresogi, ceginau, ystafelloedd ymolchi, a defnyddiau tirweddu, ac mae gwasanaeth llogi offer ar gael hefyd. I gael cyngor cyfeillgar ac arbenigol am unrhyw brosiectau sydd ar waith gennych, galwch yn y gangen agosaf neu ewch i wefan y cwmni sef www.travisperkins.co.uk.

Y nwyddau sydd ar gael am bris gostyngol

	Gostyngiad CSC
Pren (pren wedi ei lifo a phren wedi ei blamo)	30%
Pyst, ffensys, siediau	30%
Drysau a ffenestri (PVC a phren)	20%
Defnyddiau adeiladu trwm (tywod, sment, brics, blociau, teils toi)	30%
Defnyddiau adeiladu ysgafn (paent, offer llaw, nwyddau haearn, hoelion)	30%
Cynhyrchion Osma (amrywiaeth o gafnau a pheipiau dŵr)	30%
Plymwaith a systemau gwresogi (rheiddiaduron a boeleri)	30%
Ystafelloedd ymolchi, ceginau, cawodydd (Mira, Triton)	30%
Tiwbiau a ffitiadau gwresogi (peipiau copor)	30%
Llogi offer	20%
Pan fyddwch yn prynu nwyddau dywedwch wrth y staff eich bod yn gymwys i gael gostyngiad staff CSC, rhowch y rhif 'carden arian parod' hwn iddynt - MT8614 - a dangoswch brawf adnabod.	
Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.	

LBS - Masnachwyr Adeiladu

Sefydlwyd Masnachwyr Adeiladu LBS dros 75 mlynedd yn ôl, a bellach y cwmni hwn yw'r Masnachwyr Adeiladu Annibynnol mwyaf blaenllaw yn Ne-orllewin Cymru. Mae'r cwmni'n cyflenwi mwy nag 20,000 o eitemau i'r farchnad Creffttau'r Cartref a Gwella'r Cartref, ac mae gan 4 o'i ganghennau Ganolfan Blymwaith arbenigol. Yn Llandeilo y mae Prif Swyddfa LBS, a bellach mae gan y cwmni naw cangen yn Rhydaman, Caerfyrddin, Llandeilo, Llanelli, Port Talbot, Doc Penfro, Abertawe, ac Ystradgynlais. Hefyd, mae yn Llandeilo Ganolfan Creffttau'r Cartref a'r Ardd, sy'n cyflenwi

popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer creffttau'r cartref a thirweddu yn yr ardd.

Yn ogystal, drwy ei ystod o Geginau ac Ystafelloedd Ymolchi Middleton, gall y cwmni gynnig ichi lawer o steil, llawer o ddewis, cynllunio AM DDIM, ac, os ydych yn dewis, gwasanaeth gosod proffesiynol gan grefftwyr profiadol. Yn hytrach na'r prisiau cenedlaethol chwyddedig, dim ond prisiau lleol ar gyfer y farchnad leol y mae'r cwmni'n masnachu ynddi a roddir ichi.

Beth am fynd i'r wefan ganlydol: www.lbsbm.co.uk.

LBS Builders Merchants nid ar gyfer Adeiladwyr yn unig.

Ceir gostyngiadau ym mhob maes gan gynnwys:

Nwyddau Patio	20%	Ffensys, Paneli ac Estyll	20%
Paent	20%	Celfi Drws	20%
Plymwaith Plastig	20%	Nwyddau Dŵr Glaw a Draeniau	20%
Ystafelloedd Ymolchi	20%	Offer Llaw	15%
Garddio	10%	Lloriau	10%

Sylwer: Ni ellir cael y gostyngiad ar y cyd ag unrhyw gynigion eraill.

Sut mae cael gostyngiad:

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Ceramiks – Canolfannau Teils Wal a Llawr

Mae gan "Ceramiks", sydd â siopau yng Nghaerdydd ac Abertawe, amrywiaeth mawr o deils wal a llawr sy'n addas i'r gegin, i'r ystafell ymolchi, ac i'r lolfa haul, i'w defnyddio yn y cartref neu'n fasnachol. Mae teils ar gael o'r stoc, rhai ceramig, porslen, carreg neu lechi yn ogystal â chynlluniau o'r chwarel. Rydym ar agor saith niwrnod yr wythnos ac mae parcio am ddim i'n cwsmeriaid. Rydym yn cynnig cyngor arbenigol a chyfeillgar ac mae ein prisiau'n gystadleuol iawn.

I gael rhagor o wybodaeth:

Ewch i: Uned 6F, Fendrod Way, Parc Menter Abertawe, Abertawe
Ffôn: 01792 798989
E-bost: williac@comptongroup.com

Y nwyddau sydd ar gael am bris gostyngol

Pob math o deils	Gostyngiad CSC
Deunyddiau Teilsio (e.e. gludyddion)	25%
	25%

Sut mae cael gostyngiad?

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Telerau ac amodau

- Dim ond os dangosir carden adnabod CSC y gellir cael y gostyngiad
- Nid yw'r cynnig ar gael gydag unrhyw gynnig arall
- Mae'r cynigion hyn ar gael o 15fed Ebrill 2009 tan 30ain Ebrill 2010

Systemau Ynni Haul Filsol

Mae Filsol Solar Limited (Filsol) wedi bod yn gweithgynhyrchu, yn cyflenwi, ac yn gosod systemau ynni'r haul ers sefydlu'r cwmni yn 1981, ac erbyn heddiw hwn yw un o'r busnesau amlycaf ym Mhrydain o ran ynni'r haul. Ym Mhont-henri mae Filsol wedi'i leoli, ac mae'n cynnig ystod o nwyddau a systemau ynni'r haul, gan gynnwys:

- paneli sy'n defnyddio ynni'r haul i dwymo'r dŵr a systemau addas ar gyfer cartrefi, busnesau, a phyllau nofio; a
- paneli a systemau ffotofoltaidd i gynhyrchu

trydan drwy ddefnyddio ynni'r haul mewn cartrefi, busnesau, a chyfleusterau hamdden a gwledig pwrpasol.

Mae system twymo dŵr Filsol wedi ei seilio ar ein hystod FS o baneli haul thermol, ac mae tystiolaeth bod y paneli hyn ymhlith y rhai mwyaf effeithlon a chryf sydd ar gael ar y farchnad heddiw, wedi eu cymeradwyo gan Safon Ewropeaidd 12975.

Gallwn gynnig arolwg am ddim ichi (nid oes unrhyw reidrwydd arnoch i brynu), lle rydym yn ymweld â'ch tŷ i asesu eich anghenion, yn ogystal â bwrw golwg ar faterion technegol megis y safle gorau i osod panel ynni'r

haul. Mae Filsol yn osodwyr cwbl achrededig yn rhaglenni grant Llywodraeth y DU, a gall y cwmni helpu cwsmeriaid i gael grant. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cyrchwch y wefan ganlynol: www.filsol.co.uk

Gostyngiad:

20% oddi ar y pris a argymhellir Cyflenwi a gosod systemau ynni'r haul

Sut mae cael gostyngiad?

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Sheds N Chalets Ltd

Mae Sheds N Chalets Ltd wedi bod yn cynhyrchu adeiladau gardd o bren am ugain mlynedd a mwy a gallant honni bod â'r dewis mwyaf yng Nghymru. O'n ffatri yn Llanelli, mae Sheds N Chalets yn cynnig gwasanaeth pwrpasol sy'n golygu y gallwn wneud gwaith i'ch gofynion chi gan greu eich adeilad delfrydol. Ymhlith yr amrywiaeth o stoc sydd gennym, mae siediau, cabannau haf, cytiau potiau, gweithdai, cabannau pren, tai chwarae, cynelau, stablau, garejis pren, garejis concrit, tai gwydr a phyllau nofio. Gan amlaf, nid oes tâl am eu gosod ac rydym yn rhoi'r gôt gyntaf o driniaeth hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth:

Ewch i'n gwefan, www.shedsnchalets.co.uk, neu galwch i mewn gan ddod â Charden Adnabod y Cyngor Sir gyda chi.

Y nwyddau sydd ar gael am bris gostyngol

Siediau, cabannau haf, tai chwarae, cynelau a garejis o bren	Gostyngiad CSC
Tai gwydr	20%
Pyllau nofio	10%
	10%

Telerau ac amodau

- Nid yw'r cynnig ar gael gydag unrhyw gynnig arall
- Mae'r cynigion hyn ar gael o 15fed Ebrill 2009 tan 30ain Ebrill 2010

Sut mae cael gostyngiad?

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

The Optic Shop

Mae gan The Optic Shop gyfres o siopau ledled De Cymru, gan gynnwys canghennau lleol yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae Russell Evan-Jones, un o'i sylfaenwyr yn rhan o olyniaeth deuluol o fferyllwyr ac optegwyr a fu'n gweithio yn yr ardal am dros ganrif.

Mae canghennau The Optic Shop yn cynnig gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol. Mae ganddynt amrywiaeth eang o fframiau

sbectol gan gynllunwyr o fri ac mewn nifer o achosion, mae modd cael 'gwasanaeth cyn pen awr'. Mae profion llygaid ac apwyntiadau lensys cyffwrdd ar gael o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn.

I wneud apwyntiad neu i gael rhagor o gyngor, galwch heibio i'ch cangen leol yn Heol Goch, Caerfyrddin neu yn Ffordd y Brenin, Abertawe neu ffoniwch Caerfyrddin 01267 221919 neu Abertawe 01792 653339.

Y nwyddau sydd ar gael am bris gostyngol

	Gostyngiad CSC
Sbectol gyfan (gan gynnwys y fframiau a'r lensys)	20%
Lensys cyffwrdd (gellir gosod isafswm i'w harchebu)	10%

Sut mae cael gostyngiad?

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Domino's Pizza

Domino's Pizza yw cadwyn pizza amlycaf y byd, ac mae gan y cwmni fwy na 450 o siopau ledled Prydain ac Iwerddon, gan gynnwys eich siop leol newydd chi ar hen safle'r bragdy yng nghanol tref Llanelli. Dim ond toes ffres o safon y mae Domino's Pizza yn ei ddefnyddio. Caiff pob un o'n pizzas ei wneud â llaw yn arbennig at eich dant chi, drwy ddefnyddio cynhwysion ffres o'r ansawdd gorau. Gallwch ddewis o blith 88 miliwn o wahanol gyfuniadau, a Domino's yw'r unig gwmni sy'n cynnig 'delight', sef caws mozzarella gyda thraean yn llai o fraster.

Archebu bwyd gan Domino's yw'r peth hawsaf yn y byd: Naill ai galwch yn y siop yn Llanelli ar Stryd y Bont wrth ymyl y fynedfa i Aldi neu ffoniwch 01554 755889. I fwrw golwg ar y ffydlen sydd ar gael yn ei chyfarwydd, ewch i www.dominos.co.uk

Y gostyngiad sydd ar gael

	Y pris arferol	Pris CSC	Gostyngiad
Unrhyw pizza o unrhyw faint – wedi'i gludo i chi hyd at £12.99*		£8.99	30.80%
Unrhyw pizza o unrhyw faint – wedi'i gasglu gennych chi hyd at £12.99*		£6.99	46.19%

*Pris pizza mawr

Sut mae cael gostyngiad

1. Cludo

Cysylltwch â siop Domino's Pizza yn Llanelli drwy ffonio 01554 755889, ac wrth ichi archebu dywedwch eich bod yn un o "Weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin". Pan fydd un o weithwyr Domino's Pizza yn eich cyrraedd, mae'n rhaid i chi ddangos carden adnabod CSC sy'n dwyn eich llun.

2. Casglu

Ewch i siop Domino's Pizza yn Llanelli neu ffoniwch 01554 755889, ac wrth ichi wneud eich archeb dywedwch eich bod yn un o "Weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin". Pan fydd gofyn i chi dalu, dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Telerau ac amodau

- Bydd y gostyngiad ond yn cael ei ganiatáu yn y siop yn Llanelli a phan fydd carden adnabod CSC yn cael ei dangos
- Nid yw'r cynnig ar gael yr un pryd ag unrhyw gynnig arall, nac ar deledu rhyngweithiol, nac ar y gwasanaeth archebu ar-lein
- Mae'r cynnig wedi'i seilio ar pizza pris arferol yn unig
- Mae'r cynnig ar gael o 11eg Mehefin 2009 tan 31ain Mai 2010. Mae'r amodau dosbarthu arferol yn weithredol

Clwb Golf Abaty'r Glyn

Cwrs parcdir 18 twll par 70 yw Abaty'r Glyn sydd wedi'i leoli mewn ardal hardd ar odre deheuol Cwm Gwendraeth. Mae iddo faes ymarfer, llain bytio ar gyfer ymarfer, a gwasanaeth chwaraewr proffesiynol preswyl o'r PGA. Nid oes angen tystysgrifau handicap ac mae'r clwb yn cynnwys siop sy'n gwerthu amrywiaeth o nwyddau a hefyd mae bar a bwyty yno. I gael rhagor o wybodaeth anfonwch e-bost at courseenquiries@glynabbey.co.uk neu ewch i www.glynabbey.co.uk

Gweithgareddau am bris gostyngol

	Y Pris Arferol	Pris Gostyngiad CSC	
18 twll i ddau o bobl*	£36.00	£30.00	17%
Pedair pêl*	£72.00	£60.00	17%
Pedair pêl - penwythnos	£100.00	£80.00	20%

*Gostyngiadau ar gael ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau yn unig rhwng 8am a 4pm

Sut mae cael gostyngiad?

Trefnwch eich dewis weithgaredd golff ymlaen llaw a soniwch am "Gynllun Mantais Sir Gâr". Wedyn pan fyddwch yn mynd i chwarae golff, dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Clwb Golf a Chlwb Gwledig Penrhyn Machynys

Mae Machynys, sydd gerllaw'r gwlyptir gwneud mwyaf o'i fath yn Ewrop, wedi dangos ei fod yn lle delfrydol i roi athroniaeth Nicklaus ar waith, sef "dod â her golff a harddwch natur ynghyd yn greadigol". Mae'r cynllun ar gyfer cwrs glan môr a fydd yn un 18 twll ac yn 7,101 llath yn cynnwys golygfeydd trawiadol ar draws Bae Caerfyrddin o'r tir uchaf ac yn gwarchod yr arfordir naturiol. Lluniwyd y cwrs i fodloni safonau

uchaf yr USPGA (United States Professional Golfers Association) a bydd yn lle addas i gynnal pencampwriaethau cenedlaethol, yn ogystal ag i chwaraewyr o bob gallu.

Y Gostyngiad a gynigir

	Y Pris Arferol	Pris CSC
Ffi Ymaelodi	£100.00	£0.00
Aelodaeth Lawn i Golffwr am 7 niwrnod	£778.00	£583.50

Sut mae cael gostyngiad?

Trefnwch eich dewis weithgaredd golff ymlaen llaw a soniwch am "Gynllun Mantais Sir Gâr". Wedyn pan fyddwch yn mynd i chwarae golff, dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

BUPA

Un o fanteision bod yn aelod o Gynllun Mantais Sir Gâr yw cael cyfle i fanteisio ar yswiriant meddygol preifat gan BUPA a chael gostyngiad o 32%* oddi ar y pris. Yn amodol ar gydymffurfio â'r amodau a'r telerau, gall BUPACare gynnig y canlynol ichi:

- Yswiriant ar gyfer eich apwyntiad cyntaf gyda'r meddyg ymgynghorol a'ch apwyntiadau dilynol gydag ef/hi.
- Yswiriant claf allanol, ffisiotherapi a meddyginiaethau amgen, gan gynnwys aciwbigo, ciropracteg, osteopathi a homeopathi.
- Yswiriant ar gyfer pob triniaeth gymwys ar gyfer claf preswyl a chlaf dydd, ar adeg ac mewn man sy'n gyfleus i chi a'ch meddyg ymgynghorol, yn un o'r ysbytai sy'n rhan o rwydwaith cenedlaethol.
- Aros dros nos mewn ysbyty preifat – fel rheol, ystafell breifat a chyfleusterau en-suite, ffôn a theledu, fel y gellwch gael llonydd i wella yng nghwmni eich teulu a'ch ffrindiau
- Proses hawlio hawdd, fel rheol heb unrhyw ffurflenni i'w llanw
- Newyddlen gyson, gan gynnwys y newyddion meddygol diweddaraf

Bydd gennych chi, sy'n aelod o Gynllun Mantais Sir Gâr, hawl i ostyngiad o 20%** oddi ar yswiriant teithio BUPA TravelCover. Golyga hyn y gallech fod yn dawel eich meddwl gan wybod bod gennych yswiriant BUPA ble bynnag y byddwch yn teithio.

- Bydd BUPA yn gwneud unrhyw drefniadau meddygol brys ac yn eich galluogi i ddefnyddio rhwydwaith byd-eang o ysbytai lle byddant ar gael.
- Yswiriant ar gyfer costau meddygol, atebolrwydd personol, cyngor a chostau cyfreithiol, damwain personol, dychwelyd adref mewn argyfwng, llety ychwanegol, canslo neu dorri ymweliad yn

fyr, colli paciau, a cholli'r daith ymaith, yn dibynnu ar lefel yr yswiriant

- Yswiriant pwrpasol i'ch anghenion – dewiswch o yswiriant ar gyfer un daith neu nifer o deithiau, yn Ewrop neu ledled y byd, yn dibynnu ar yr hyn sy'n gweddu orau ichi

Sut mae cael gostyngiad?

Os dymunwch gael rhagor o wybodaeth am y naill neu'r llall o'r cynigion hyn, ffoniwch Ron Dingle ar y rhif 0800 434 6901 gan roi'r cyfeirnod "Cyngor Sir Caerfyrddin". *Mae'r gostyngiad hwn yn berthnasol i gyfraddau tanysgrifio safonol cyfredol BUPACare ac mae ar gael i'r rheiny a fydd yn ymaelodi rhwng 1af Ionawr 09 a 31ain Rhagfyr 09. Ni chaniateir ichi ei gyfuno ag unrhyw ostyngiadau eraill yr ydych yn gymwys i'w cael. Mae BUPA yn cadw'r hawl i newid y gostyngiad neu ei dynnu yn ei ôl ar/ar ôl eich dyddiad adnewyddu cyntaf ac mae'n cadw'r hawl i amrywio tanysgrifiadau yn ystod blwyddyn gontract os bydd cyfradd y dreth premiwm yswiriant yn newid.

**Mae aelodaeth yn amodol ar gael eich derbyn gan BUPA ac ar dderbyn rheolau a buddion y cynllun yr ydych yn gwneud cais amdano, gan gynnwys eithriadau, cyfyngiadau ac unrhyw amodau arbennig eraill a fydd yn berthnasol. Bydd union delerau'r yswiriant yn dibynnu ar asesiad o'ch amgylchiadau unigol. Gellir gwneud cais i gael y manylion llawn ac fe'u hanfonir atoch pan fyddwch yn ymuno. †Mae terfynau buddion yn weithredol. #Mae'r ysbytai sy'n rhan o'r rhwydwaith yn ymdrin â'r rhan fwyaf o gyflyrau cymwys. O ran trin rhai cyflyrau sy'n gysylltiedig â chanser, mae'r yswiriant a gynigir ar gyfer gwasanaeth mewn canolfannau triniaethau arbenigol yn unig.

Cymdeithas Gwasanaethau Iechyd ac Ysbytai Cymru (WHA)

Cymdeithas ddi-elw i aelodau yw'r WHA sy'n darparu amrywiaeth o fuddion ariannol a gynlluniwyd i gynorthwyo â chostau triniaethau gofal iechyd cyffredinol megis rhai optegol, deintyddol, ffisiotherapi, yn ogystal â thaliadau arian parod ar gyfer bod yn glaf preswyl mewn ysbyty. Mae dewis o gynlluniau isel eu cost ar gyfer aelodaeth i unigolyn neu i deulu na fydd yn

costio'r ddaear – gall talu cyn lleied â £6.28 y mis gynnig yswiriant gwerth hyd at £2,825 ichi, a gall gŵr a gwraig gael yswiriant gwerth mwy na £10,000 am £28.16 y mis.

Gweithgareddau am bris gostyngol

Bydd gweithwyr cyflog Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cael yswiriant a fydd yn weithredol yn ddi-oed, yn hytrach na gorfod aros am y cyfnod cymhwys arferol o dri mis.

Sut mae cael gostyngiad?

Llenwch ffurflen gais sydd ar gael oddi wrth www.whahealthcare.co.uk neu drwy ffonio 0800 298 1870 yn rhad ac am ddim.

Fusion Health & Fitness Clubs

Mae canolfannau Fusion sydd wedi eu lleoli yng Nghanolffannau Hamdden Rhydaman, Caerfyrddin, Llanelli, a Chastellnewydd Emlyn yn cynnig amrywiaeth eang o offer cardiofasgwlaidd Technogym o safon uchel, sy'n helpu pobl i wella eu stamina ac i golli pwysau yn ogystal â pheiriannau gwytnwch sy'n helpu i dynhau a chryfhau'r cyhyrau. Mae ymuno â chlwb iechyd a ffitrwydd yn gallu codi ofn ar bobl ond bydd tîm Fusion yn eich croesawu ac yn eich helpu i ymlacio. Rhoddir sesiwn

cyflwyno i bob cwsmer a byddwn yn mesur eich ffitrwydd yn ogystal â dangos i chi sut y mae defnyddio'r offer a pham y dylech wneud hynny. Erbyn diwedd y sesiwn, bydd gennych raglen bersonol o ymarferion, ynghyd â'r hyder a'r wybodaeth i ymarfer corff yn ddiogel. I gael rhagor o wybodaeth, galwch heibio i un o'r canolfannau hyn neu anfonwch e-bost at hamdden@sirgar.gov.uk

Y Gostyngiad a gynigir

	Y Pris Arferol	Pris Gostyngiad CSC	
Defnyddio faint fynnoch ar y gampfa, y pwll nofio a'r dosbarthiadau ffitrwydd	£31.00	£26.00	27%

Sut mae cael gostyngiad?

Wrth dalu dangoswch y garden adnabod a roddwyd ichi gan y Cyngor Sir. Mae'r prisiau a nodir yn daladwy drwy ddebyd uniongyrchol ar gyfer cyfnod o un mis, a bwrw eu bod ar gael.

Clwb Iechyd a Sba Monks, Clwb Golf a Chlwb Gwledig Machynys

Mae'r rhan fwyaf o gampfeydd yn cymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod sut i gyrraedd eich nod o ran ffitrwydd ... Mae Monks yn wahanol.

Yng Nghlwb Iechyd a Sba Monks rydym yn gofalu am ein haelodau ym mhob cam o'ch aelodaeth - o'r sesiwn cyflwyno cyntaf i adolygu eich rhaglen ffitrwydd bersonol. Mae staff Monks yn treulio amser yn dod i adnabod pob un o'n haelodau. Drwy wneud hyn gall

ein tîm gynnig cyngor arbenigol i'ch galluogi i fod yn fwy heini ac yn fwy hyderus a gwybodus am eich ffitrwydd.

Mae ein sesiynau ymgynghori personol yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i chi! Sicrhau eich bod yn mwynhau ymweld â ni, yn elwa o bob ymweliad ac na fyddwch byth yn diflasu ar eich trefn ymarfer yw'r nod. Mae Monks yn ymrwymo i lunio llwybr diogel ac esmwyth i'ch arwain tuag at eich nod o ran ffitrwydd, ar gyflymder sy'n addas ichi.

Y Gostyngiad a gynigir

	Y Pris Arferol	Pris CSC
Ffi Ymaelodi	£100.00	£0.00
Clwb Iechyd a Sba (y mis)	£48.55	£35.50

Sut mae cael gostyngiad?

Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Clwb Iechyd a Sba Monks, Machynys

Mae Clwb Iechyd a Sba Monks yn rhoi cyfle i chi ac un o'ch ffrindiau gael gostyngiad o 10% ar unrhyw Ddiwrnod Sba a/neu Driniaethau Harddwch 1 awr o'ch dewis chi. Mae diwrnod sba cyffredin yn costio £55, ac mae'r pris yn cynnwys 'elemis express facial', sy'n cwmpasu golchi traed mewn leim cynnes a thylino naill ai'r dwylo a'r breichiau neu'r cefn, y gwddf, a'r ysgwyddau. Hefyd, mae'r pris yn cynnwys defnyddio faint a fynnoch o'r sba a'r gampfa, defnyddio gŵn, sliperi, a thywel, ynghyd â chinio

dau gwrs ym Mar a Bwyty Fairyhill ym Machynys.

I gael rhagor o wybodaeth am yr holl becynnau Diwrnodau Sba, ewch i www.machynys.com neu cysylltwch â'r sba drwy ffonio 01554 744888.

Y Gostyngiad a gynigir

	Gostyngiad CSC
Unrhyw ddiwrnod sba	10%
Triniaethau Harddwch 1 awr	10%

Sut mae cael gostyngiad?

Pan fyddwch yn trefnu eich lle, cyfeiriwch at 'Ostyngiad Sba Cyngor Sir Caerfyrddin'. Prawf adnabod - dangoswch eich slip cyflog diweddaraf a phrawf adnabod ar ffurf llun (pasport neu drwydded yrru) - mae'n rhaid bod yr enw a'r cyfeiriad yn cyfateb.

Telerau ac amodau

Mae'r gostyngiad ond yn ddilys o ddydd Llun tan ddydd Iau, ac mae'n rhaid talu'n llawn pan fyddwch yn trefnu eich lle.

Picton Sports

